# SCDSW4
Ymarfer barn broffesiynol mewn gwaith cymdeithasol

## Trosolwg

Mae'r safon hon ar gyfer gweithwyr cymdeithasol sy'n gweithio gydag unigolion, teuluoedd, gofalwyr, grwpiau a chymunedau. Wrth wraidd ymarfer gwaith cymdeithasol y mae'r angen i lunio barn a fydd yn effeithio ar fywydau pobl eraill, mewn amgylchiadau heriol neu ag effeithiau eithafol ambell waith. Rhaid llunio barn broffesiynol, hyd yn oed wrth weithio mewn modd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac wrth gydweithio'n agos â phobl eraill. Mae'r safon hon yn mynegi fel mae'n rhaid i weithwyr cymdeithasol gynnwys dadansoddiad trylwyr ac ystyrlon o wybodaeth a'i goblygiadau yn y broses benderfynu, gan arwain at farn y gellir ei mynnu'n hyderus er mwyn sicrhau budd pennaf y rhai dan sylw.

**SCDSW4**
# Ymarfer barn broffesiynol mewn gwaith cymdeithasol

## Meini prawf perfformiad

*Mae'n rhaid eich bod chi'n gallu:*

P1 dadansoddi ystod o wybodaeth a fydd yn llywio penderfyniadau proffesiynol am sefyllfaoedd cymhleth, penodol

P2 datblygu amrywiaeth o ddewisiadau i fynd i'r afael â'r sefyllfa

P3 gwerthuso goblygiadau dewisiadau gwahanol ar gyfer y **bobl** dan sylw

P4 ymarfer barn broffesiynol i wneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth

P5 cyflwyno ar lafar ac yn ysgrifenedig, y rhesymwaith dros eich barn broffesiynol

P6 cyfiawnhau eich barn broffesiynol lle mae pobl eraill yn anghytuno â hi neu'n ei herio

P7 herio barn pobl eraill sydd i'w gweld yn gwrthdaro â'r dystiolaeth neu'n gweithio yn erbyn budd pennaf pobl

P8 ystyried yr angen i addasu eich barn eich hun lle cyflwynir tystiolaeth newydd

# SCDSW4
Ymarfer barn broffesiynol mewn gwaith cymdeithasol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

| | |
|---|---|
| K1 | deddfwriaeth genedlaethol, ei pherthynas â **pholisïau** ac ymarfer gwaith cymdeithasol |
| K2 | codau, safonau, fframweithiau ac arweiniad statudol a phroffesiynol; eu perthynas â pholisi ac ymarfer gwaith cymdeithasol |
| K3 | nodweddion y wlad gartref, ei hiaith, diwylliant, daearyddiaeth ac arferion |
| K4 | damcaniaethau sy'n tanategu ein dealltwriaeth o ddatblygiad dynol a'r ffactorau sy'n effeithio arno |
| K5 | damcaniaethau sy'n tanategu ein dealltwriaeth o faterion cymdeithasol o safbwyntiau seicolegol, cymdeithasegol a throseddegol |
| K6 | damcaniaethau gwahaniaethu mewn cymdeithas gyfoes |
| K7 | beirniadaethau ar sail damcaniaethau ac ymchwil ar y berthynas rhwng deddfwriaeth, polisïau ac ymarfer gwaith cymdeithasol |
| K8 | natur, rôl a gorchymyn y berthynas gwaith cymdeithasol, gan gynnwys ffiniau proffesiynol a moesegol |
| K9 | egwyddorion, damcaniaethau, dulliau a modelau o ymyriad ac ymarfer gwaith cymdeithasol |
| K10 | **ffactorau** sy'n gyffredinol yn cael eu cysylltu ag ymglymiad gwaith cymdeithasol |
| K11 | eich cefndir, profiadau ac arferion eich hun a all effeithio ar eich ymarfer gwaith cymdeithasol |
| K12 | egwyddorion asesu risg a rheoli risg |
| K13 | egwyddorion cymryd risg yn gadarnhaol |
| K14 | technegau datrys problemau a meddwl arloesol |
| K15 | gweithio yn eich sefydliad: egwyddorion, gweithdrefnau ac ymarferion proffesiynol |
| K16 | offer a fframweithiau asesu a chynllunio |
| K17 | gofynion ffurfiol ar gyfer prosesau cyfreithiol a phrosesau allanol eraill |
| K18 | diben gweithio gyda gweithwyr proffesiynol ac asiantaethau eraill |
| K19 | cylch gwaith, swyddogaethau, ethos a chyfrifoldebau disgyblaethau a |

sefydliadau sy'n ymglymedig â gwaith amlddisgyblaethol

K20 gweithdrefnau amlddisgyblaethol a sefydliadol lleol ar gyfer ymchwilio i niwed neu gamdriniaeth

K21 dangosyddion niwed neu gamdriniaeth posibl

K22 nodweddion cyffredin ymddygiad cyflawnwyr

K23 dangosyddion gelyniaeth, gwrthwynebiad neu ddiffyg cydymffurfio cudd

K24 grym a chyfrifoldebau cyfreithiol a statudol y gellir eu defnyddio er mwyn diogelu unigolion, teuluoedd, gofalwyr, grwpiau a chymunedau

K25 potensial unigolion i ddefnyddio eu cryfderau a'u hadnoddau personol i gyflawni newid

K26 sut i fynegi gwybodaeth ysgrifenedig yn gywir, yn eglur, yn berthnasol ac â lefel briodol o fanylion

K27 gofynion cyfreithiol a sefydliadol ar gyfer cofnodi gwybodaeth a llunio adroddiadau

K28 gofynion cyfreithiol, polisïau a gweithdrefnau ar gyfer diogelwch a chyfrinachedd gwybodaeth

K29 egwyddorion ymarfer myfyriol, meddwl beirniadol a dysgu

K30 sut a phryd i fanteisio ar gymorth anffurfiol wrth ymarfer

K31 ffynonellau o adborth a all lywio myfyrio ar ymarfer a meddwl beirniadol

## Gwybodaeth Ychwanegol

| | |
|---|---|
| **Cwmpas/ystod** | Ymarfer gwaith cymdeithasol gydag unigolion, teuluoedd, gofalwyr, grwpiau a chymunedau mewn ystod eang o gyd-destunau, gan gynnwys gwasanaethau cymdeithasol statudol ac anstatudol, datblygu cymunedol, cyfiawnder troseddol a lles addysgol |
| **Cwmpas/ystod sy'n gysylltiedig â meini prawf perfformiad** | Gall **pobl** fod yn unigolion, teuluoedd, gofalwyr, grwpiau neu gymunedau |
| **Cwmpas/ystod sy'n gysylltiedig â gwybodaeth a dealltwriaeth** | Gall **polisïau** gynnwys rhai sy'n ymwneud â gofal cymdeithasol, diogelu, ail-leoli/atgyfannu yn y gymuned, cyfiawnder troseddol, mudo a cheisio lloches, addysg, iechyd, tai, budd-daliadau lles, amrywiaeth, gwahaniaethu a hybu annibyniaeth ac ymreolaeth oedolion, plant, teuluoedd, grwpiau a chymunedau<br>Gall **ffactorau** gynnwys camddefnyddio sylweddau; iechyd meddwl; eiddilwch; salwch corfforol; anabledd corfforol; anabledd dysgu; anghenion synhwyraidd; mudo a cheisio lloches; tlodi; oedolion neu blant mewn perygl o niwed neu gamdriniaeth; plant mewn angen; anawsterau sy'n ymwneud ag addysg; statws grŵp ethnig neu grŵp lleiafrifol arall; ymddygiad troseddol; diogelu'r cyhoedd |
| **Gwerthoedd** | Glynu wrth y codau ymarfer rheoleiddiol sy'n gymwys i weithwyr cymdeithasol, a'r gwerthoedd sydd wedi cael eu mewnosod ynddynt. |
| **Sgiliau** | 1 Cynllunio camau gweithredu i gyflawni canlyniadau canfyddedig<br>2 Rheoli galw ar eich amser eich hun i flaenoriaethu'r hyn sy'n bwysig, yn ogystal â'r hyn sydd angen ei wneud ar frys<br>3 Cyfathrebu mewn modd agored, cywir a dealladwy<br>4 Addasu cyfathrebu ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd<br>5 Gweithio'n effeithiol gyda'r rheiny sydd â safbwyntiau neu werthoedd sy'n gwrthdaro â'ch rhai chi |

6. Trafod gydag eraill i gyflawni cytundeb mewn sefyllfaoedd cymhleth
7. Herio eraill, lle bo angen, mewn ffyrdd sy’n debygol o gyflawni newid
8. Cymhwyso meddwl beirniadol i wybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau
9. Dadansoddi a chyfosod gwybodaeth gymhleth
10. Cymhwyso meddwl creadigol i ddatrys problemau cymhleth
11. Llunio barn broffesiynol ynghylch sefyllfaoedd cymhleth
12. Defnyddio eich sgiliau rhyngbersonol a sgiliau a gwybodaeth arall fel adnodd
13. Cymhwyso ymagweddau sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn
14. Cydbwyso canlyniadau sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn â lles pobl eraill
15. Ymarfer pendantrwydd, grym ac awdurdod mewn ffyrdd sy’n gydnaws â gwerthoedd gwaith cymdeithasol
16. Llunio cofnodion ac adroddiadau sy’n bodloni safonau proffesiynol
17. Cael mynediad at systemau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu a’u defnyddio i gasglu, storio a lledaenu gwybodaeth
18. Cael mynediad at oruchwyliaeth a chymorth proffesiynol a’u defnyddio mewn sefyllfaoedd y tu hwnt i’ch gwybodaeth neu’ch profiad chi
19. Cymhwyso meddwl beirniadol er mwyn myfyrio ar eich ymarfer eich hun
20. Cyfosod gwybodaeth ac ymarfer

## Cysylltiadau â SGC eraill

Mae’r SGC hon yn tanategu pob SGC Gwaith Cymdeithasol arall.

## Cysylltiadau Allanol

Mae’r SGC hon yn cysylltu â chodau ymarfer rheoleiddiol sy’n berthnasol i weithwyr cymdeithasol.

**SCDSW4**
# Ymarfer barn broffesiynol mewn gwaith cymdeithasol

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Sgiliau Gofal a Datblygu |
| **Rhif y fersiwn** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | HYDREF 2011 |
| **Dyddiad adolygu mynegol** | EBRILL 2014 |
| **Dilysrwydd** | CYFREDOL |
| **Statws** | GWREIDDIOL |
| **Sefydliad gwreiddiol** | Sgiliau Gofal a Datblygu |
| **URN gwreiddiol** | SW4 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gweithiwr Cymdeithasol |
| **Cyfres** | Gwaith Cymdeithasol |
| **Allweddeiriau** | barn |